**YSGOL BRO HYDDGEN**
Tel: (01654 70 4200)
Ffacs: (01654 70 2994)
E-bost: office@brohyddgen.powys.sch.uk
Gwefan: www.brohyddgen.cymru

PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A

20 Gorffennaf 2020

Annwyl Rieni / Ofalwyr

# Trefniadau ar gyfer Dechrau'r Tymor Newydd

Edrychwn ymlaen i groesawu eich plentyn yn ôl i'r ysgol ym mis Medi. Noder bod yr Awdurod Addysg wedi clustnodi **dydd Mawrth 1 Medi** a **ddydd Mercher 2 Medi** yn ddiwrnodau Paratoi i staff ac felly ni fydd yr ysgol ar agor i blant.

## Presenoldeb

Bydd pythefnos gyntaf y tymor yn gyfnod o ailgynefino â threfn ysgol ac i raddoli pawb i mewn i addysg llawn amser unwaith eto. Mae rheidrwydd i bob disgybl fod yn bresennol yn yr ysgol erbyn **dydd Llun 14 Medi**

Ym mis Medi 2020 bydd plant y Campws Cynradd yn cael eu rhannu i mewn i **7 dosbarth** dysgu:

| Dosbarth | Staff | Cyfrwng |
|---|---|---|
| Onnen: Bl 0 & 1 | Miss Iona Davies | Cymraeg |
| Bedwen: Bl 2 & 3 | Mrs Angharad Williams | Cymraeg |
| Celynnen: Bl 0, 1 & 2 | Miss Mary Griffiths | Saesneg |
| Masarnen: Bl 3 & 4 | Mrs Ann Eleri Thomas | Saesneg |
| Afallen: Bl 3, 4 & 5 | Mrs Gwenan Phillips | Cymraeg |
| Helygen: Bl 5 & 6 | Mrs Manon Holt | Cymraeg |
| Collen: Bl 5 & 6 | Mr Alwyn Jones | Saesneg |

Gweler y ddogfen ***Dyddiadau ac Amseroedd Dechrau'r Tymor*** ar gyfer pob grŵp a phob dosbarth:

## Mesurau Ymbellhau a Glendid

O fis Medi ymlaen bydd mesurau cadw pellter cymdeithasol yn cael eu llacio ymysg plant i alluogi dysgu dosbarthiadau cyfan ac i blant o fwy nag un dosbarth allu rhannu'r iard chwarae. Fodd bynnag bydd gofyn i blant geisio cadw pellter cymdeithasol oddi wrth staff ac i sicrhau eu bod yn golchi'u dwylo'n drylwyr ac yn gyson.

## Mesur Tymheredd

Byddwn yn parhau i fesur tymheredd pob plentyn ac aelod o staff wrth iddyn nhw gyrraedd yr ysgol.

**YSGOL BRO HYDDGEN**
Tel: (01654 70 4200)
Ffacs: (01654 70 2994)
E-bost: office@brohyddgen.powys.sch.uk
Gwefan: www.brohyddgen.cymru

PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A

## Clwb Brecwast a Chlwb ar ôl Ysgol

Oherwydd yr amgylchiadau presennol, ni fydd clwb brecwast yn cael ei ddarparu ym mis Medi. Nid oes penderfyniad wedi ei wneud eto ynghylch ailagor y Clwb ar ôl Ysgol. Bydd MCCP (y darparwr) yn rhannu gwybodaeth cyn dechrau'r tymor.

## Cinio Ysgol

Bydd y ffreutur yn ailagor ym mis Medi ac yn gweini prydau ysgol fel arfer. Gweler: https://brohyddgen.cymru/index.php/the-canteen-school-meals/ Bydd pob dosbarth yn cael cinio ar amser penodol. Os ydych chi'n meddwl eich bod chi'n gymwys am brydau ysgol am ddim, ceir mwy o fanylion ar wefan Powys: https://cy.powys.gov.uk/article/3759/Prydau-Ysgol-am-ddim-a-help-gyda-dillad-ysgol

## Gwisg Ysgol

Anogir plant i wisgo gwisg ysgol.

## Offer Ysgrifennu

Bydd yr ysgol yn darparu offer elfennol i bob plentyn ei gadw mewn cas pensiliau tryloyw, fel na fydd rhaid i neb rannu offer ysgrifennu.

Mae croeso i chi gysylltu gyda'r ysgol os hoffech chi drafod y trefniadau uchod ymhellach.

Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth yn ystod cyfnod gwirioneddol anodd. NI fydd gwaith yn cael eu uwchlwytho i **Teams/Hwb/J2E** yn ystod y gwyliau – dylid gwneud yn fawr o'r amser i ymlacio a darllen.

Yr eiddoch yn gywir



Haf ap Robert

Pennaeth Cynorthwyol